Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer
Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

Summit SKILLS

datblygu dyfodol y sector drwy sgiliau a hyfforddiant

Pwy ydym ni?

SummitSkills yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau (BSE).

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol BSE ar draws y DU i ddarparu ymagwedd gydlynus tuag at y materion sy'n effeithio arnynt hwy. Mae hyn i sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y sector yn meddu ar y sgiliau iawn ar y lefelau iawn i'w galluogi i fod yn effeithlon ac yn effeithiol, gan gynyddu nid yn unig eu cynhyrchedd ond hefyd cynhyrchedd y sector.

Penodwyd SummitSkills gan y Llywodraeth i gynrychioli barn cyflogwyr y sector i sicrhau bod gan fusnesau BSE lais pwerus wrth lobïo am newid mewn strwythurau sgiliau a hyfforddiant.

Rydym yn derbyn arian gan y Llywodraeth drwy Gomisiwn Cyflogaeth a Sgiliau y DU, gan gyflogwyr drwy fudiadau masnach rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r diwydiannau, a hefyd drwy ein gweithgareddau ein hunain.

Ble ydym wedi cael effaith?

- wedi datblygu a diweddaru'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- wedi datblygu prentisiaeth newydd i'r sector
- y rhai'n cychwyn ar brentisiaeth i fyny o dros 50%
- y rhai'n cwblhau prentisiaeth i fyny o 33%
- wedi datblygu SGC ar gyfer technolegau amgylcheddol
- uwchsgilio dros 62,000 o osodwyr mewn effeithlonrwydd ynni
- wedi cyfrannu at ddatblygu diplomâu mewn dau faes i'r rhai rhwng 14-19 oed
- wedi datblygu manyleb fframwaith gradd Sylfaen
- wedi datblygu Strategaeth Cymwysterau'r Sector
- wedi gweithredu'r Safonau Ansawdd Hyfforddiant i'r sector
- wedi lansio ymgyrch Good Day yn hyrwyddo gyrfaoedd yn y sector

GOOD Day®

Ein hamcanion strategol

Wrth ddatblygu ein hamcanion sicrhawyd eu bod yn adlewyrchu ac yn ategu barn adroddiad yr Arglwydd Leitch ar sgiliau; a rheiny Gweithgor Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru ar rôl Cyngor Sgiliau Sector:

Ymgysylltu cyflogwyr
ymgysylltu â chyflogwyr ac unigolion i hybu manteision datblygu sgiliau

Cynnig arbenigedd, diogelu safonau
bod yn llais awdurdodol y sector wrth ddiffinio anghenion sgiliau yn y dyfodol

Gwella ansawdd a chyflwyno
sicrhau bod y cyflenwad o bobl, sgiliau a chymwysterau yn cael ei arwain gan gyflogwyr

Cynyddu uchelgais
cynyddu uchelgais cyflogwyr a buddsoddiad mewn sgiliau a hyrwyddo agenda sgiliau'r sector

Effeithiolrwydd ac esblygiad
datblygu gallu ein sefydliad yn barhaus, gan ddefnyddiol adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon

Ymagwedd partneriaeth
llunio partneriaethau effeithiol i gyflawni amcanion

Ein **gweledigaeth strategol** yw cael

Sgiliau o'r radd flaenaf sy'n sbarduno perfformiad mewn sector proffidiol a chystadleuol

I gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y sector byddwn yn cyflwyno ein **cenhadaeth** sef

Dylanwadu a hyrwyddo buddsoddiad mewn sgiliau ar bob lefel

Beth mae peirianneg gwasanaethau adeiladau yn ei gwmpasu?

Rolau swyddi technegol fedrus a phroffesiynol ar draws y meysydd galwedigaethol canlynol:

- tymheru a rheweiddiad
- electrodechnegol
- gwresogi ac awyru
- plymo
- ymgynghori peirianneg gwasanaethau adeiladau
- systemau rheoli adeiladau
- cyflogwyr gwasanaethau trydanol ac electroneg

Roedd gan sector BSE y DU drosiant blynyddol o £17bn yn 2007 ac roedd yn cyflogi dros 600,000 o unigolion mewn dros 60,000 o fusnesau. Mae'r sector yn rhan amrywiol o economi'r DU ac mae'n ehangu o hyd, gan gwmpasu ystod eang o sgiliau sy'n darparu gwasanaethau dylunio, gosod a chynnal a chadw hanfodol i gleientiaid diwydiannol, masnachol a domestig.

Ychydig o'n gwaith yn y sector

Cytundeb Sgiliau Sector

Yn yr ymchwil a ymgymerwyd ar gyfer ein Cytundeb Sgiliau Sector (CSS), mae SummitSkills wedi gallu darparu darlun clir o'r sector BSE yn ei gyfanrwydd, ei ddylanwadau allanol, yr heriau sgiliau allweddol a'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol sydd ar gael iddo. Rydym yn ddiweddar wedi cyhoeddi diweddariad materion allweddol 2008 sy'n crynhoi ymchwil ychwanegol ar y cytundeb hwn. Gellir gweld mwy o wybodaeth ar y prosiect a'r CSS yn **www.horizon-ssa.org.uk**



Grwpiau Cyflogwyr

Er mwyn cynrychioli barn cyflogwyr y sector yn llawn mae angen i fusnesau gymryd rhan yn ein gwaith a rhannu eu syniadau a'u barn. Mae SummitSkills yn cydlynu nifer o grwpiau â diddordeb a grwpiau gweithredu a arweinir gan gyflogwyr lle mae busnesau yn dod atom ni i drafod materion hyfforddiant a sgiliau sy'n effeithio arnynt hwy yn eu rhanbarth a'u diwydiant. Cynhelir ein grwpiau gweithredu ym mhob rhanbarth yn Lloegr yn ogystal ag yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Cymwysterau

Mae SummitSkills yn cynhyrchu Strategaeth Cymwysterau'r Sector a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y mae cyrff dyfarnu yn eu defnyddio i ddatblygu cymwysterau. Rydym hefyd yn pennu'r mathau o gymwysterau sydd eu hangen ar y sector i hyfforddi prentisiaid a datblygu gweithwyr presennol. Gwneir hyn oll mewn ymgynghoriad â chyflogwyr ac mae'n sicrhau bod llwybrau cydnabyddedig i bobl fynd i mewn i'r sector a datblygu eu gyrfaoedd.

Gwybodaeth y Farchnad Lafur

SummitSkills yw'r ffynhonnell benodol ar gyfer gwybodaeth y farchnad lafur ar gyfer y sector BSE drwy ei brosiectau ymchwil rheolaidd, sy'n darparu rhagamcan cynhwysfawr o ofynion sgiliau ar draws y pedair gwlad ac o fewn pob un o ddiwydiannau'r sector.

Cyngor

Gall SummitSkills gynghori ar bob maes sy'n ymwneud â sgiliau a hyfforddiant, gan eich arwain ar recriwtio prentisiaid, sgiliau busnes a rheoli, llwybrau ariannu, hyfforddiant a darpariaeth addysg rhanbarthol, sef

Rhoi newyddion diweddaraf y sector i chi

Gwefan SummitSkills
Adran newyddion sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd

Skills Insight
Ein newyddlen, a gyhoeddir tair gwaith y flwyddyn

E-newyddlen
Cofrestrwch am ddim ar wefan SummitSkills a derbyn y diweddaraf yn rheolaidd dros yr e-bost

Gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus
Sylw rheolaidd mewn cyhoeddiadau masnach a sector allweddol

Hyrwyddo rhagoriaeth mewn sgiliau a hyfforddiant

Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol

BUILDING SERVICES ENGINEERING
National Training Awards

Mae'r Gwobrau Hyfforddiant Cenedlaethol yn dathlu'r goreuon o blith prentisiaid, gweithredwyr a thechnegwyr ar draws y DU yn y sector BSE. Mae 11 o gategorïau gwobrau, a enwebwyd gan gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant, i wobrwyo eu sêr amlwg.

Cystadlaethau Sgiliau

skill M&E
Building Services Engineering Skills Competitions

Mae SkillELECTRIC, SkillFRIDGE, SkillPLUMB a SkillPIPE yn cydnabod gorau'r goreuon yn eu categori, gan asesu drwy nifer o brofion ymarferol yn seiliedig ar sefyllfaoedd gwaith bywyd go iawn. Mae Skill M&E yn hyrwyddo safonau uchel a sgiliau ar draws y sector, gan ddatblygu cymhwysedd yn rhagoriaeth. Gellir gweld mwy o wybodaeth yn **www.skillMandE.org.uk**

SummitSkills
Vega House, Opal Drive, Fox Milne, Milton Keynes MK15 0DF

T: 01908 303960 • Ff: 01908 303989
www.summitskills.org.uk • e-bost enquiries@summitskills.org.uk

Alliance Sector Skills Councils